# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3) 13-08 Papur 1 : 02 Hydref 2008

### P-03-139 Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy

### Geiriad y Ddeiseb

'Yr ydym ni sy'n llofnodi isod yn gofyn i chi achub Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy

Mae Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy sydd wedi ennill gwobrau ac sy'n gartref i'r sinema sydd wedi bod ar waith hwyaf yng Nghymru, yn wynebu gorfod cael ei chau. Mae apeliadau i Gyngor Sir Powys a Chyngor Celfyddydau Cymru wedi cael eu gwrthod. Yr ydym ni sy'n llofnodi ein henwau isod i gefnogi'r ddeiseb hon drwy hyn yn gofyn i Weinidog Cymru dros Dreftadaeth, Rhodri Glyn Thomas, wneud popeth o fewn ei allu i sicrhau goroesiad y ganolfan gelfyddydau wledig uchel ei chanmoliaeth a gwerthfawr tu hwnt hon.'

### Cefndir

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Jane Oberman o Lanfair-ym-Muallt.

Cafwyd 8,199 o lofnodion ar y ddeiseb.

Bu'r Pwyllgor yn ystyried y ddeiseb ar 25 Mehefin 2008 a chlywodd dystiolaeth gan y deisebwyr ar 23 Gorffennaf 2008.

Cytunodd y Pwyllgor i wahodd Cyngor Celfyddydau Cymru i gyflwyno'i achos mewn perthynas ag ariannu Canolfan Gelfyddydau Glannau Gwy yn y cyfarfod nesaf.

Mae'r Gweinidog dros Dreftadaeth hefyd wedi ysgrifennu at y Pwyllgor mewn perthynas â'r mater hwn. Mae ei lythyr i'w weld fel atodiad PET(3) 13-08 Papur 1A.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru wedi darparu gwybodaeth ychwanegol sydd i'w weld fel atodiad PET(3) 13-08 Papur 1B.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Medi 2008**